Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg y Trallwng
**Red Bank**
**Y Trallwng**
**Powys**
**SY21 7PW**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg y Trallwng

Lleolir Ysgol Gymraeg Y Trallwng yn nhref Y Trallwng, yn awdurdod lleol Powys. Mae 79 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol un dosbarth oed sengl a thri dosbarth oed cymysg.

Dros dreigl dwy flynedd, mae tua 3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn llawer is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae tua 4% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 18% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, sydd yn is na'r ganran genedlaethol o 21%.

Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2017, a hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol. Penodwyd y pennaeth dros dro i'w swydd ym mis Medi 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd cadarn ac maent yn cyflawni'n dda yn y Gymraeg a'r Saesneg.  Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhifedd yn effeithiol ac maent yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) pwrpasol ar draws y cwricwlwm.  Mae'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus.  Maent yn barod i weithio ar ddechrau gwersi ac maent yn cynnal eu hymroddiad trwy gydol y sesiynau yn fwriadus.

Mae'r addysgu a'r ddarpariaeth o brofiadau dysgu yn gryfder.  Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n gydwybodol a theyrngar am eu disgyblion.  Maent yn cynnig arweiniad a chymorth buddiol iddynt, sy'n atgyfnerthu'r  ymdeimlad cryf ymysg y disgyblion bod eu hysgol yn gymuned ddiogel.

Mae gweledigaeth ysgogol y pennaeth dros dro, ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach, yn glir a phwrpasol.  Gyda chefnogaeth y llywodraethwyr ymroddgar, mae hi'n gweithredu blaenoriaethau effeithiol.  O ganlyniad, maent yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ysgogi'r athrawon a'r cymorthyddion i ddatblygu disgyblion medrus a deallus.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ysgrifennu ymestynnol y disgyblion mwy abl a thalentog yn adlewyrchu eu gwir alluoedd

A2 Gwella ansawdd cyflwyniadau disgyblion yn eu llyfrau gwaith

A3 Gwella’r ddarpariaeth i gefnogi’r addysgu a’r dysgu yn ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sydd yn is na’r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg pwrpasol ac yn cyflawni’n gadarn. Maent yn cyfathrebu yn y Saesneg yn hyderus, ac yn datblygu medrau rhifedd a TGCh effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae cyflawniad y rhan fwyaf o ddisgyblion, wrth iddynt siarad a gwrando, yn datblygu’n dda. Maent yn hyderus ar lafar ac yn deall bod gwrando’n astud ar eraill yn bwysig i’w dysgu. O ganlyniad, maent yn sgwrsio’n huawdl am eu gwaith a gweithgareddau’r ysgol. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn disgrifio’n eglur gylch bywyd iâr ar ôl iddynt ddeor wyau mewn deorydd. Mae’r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau llafar Saesneg coeth, wrth iddynt drafod effaith hiliaeth ar fywydau plant yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg â mynegiant clir. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau’n ddoeth ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn ofalus, trwy ddefnyddio strategaethau ffonig defnyddiol. Maent yn disgrifio digwyddiadau mewn stori yn effeithiol ac yn esbonio’n gelfydd y rhesymau dros weithredau penodol, fel anifeiliaid yn cydweithio â’i gilydd yn yr eira. Mae’r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac yn ynganu’n glir yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio’n gydwybodol ar y we, fel ymholi i frwydrau Owain Glyndwr rhwng Tref-y-Clawdd a’r Trallwng. O ganlyniad, maent yn defnyddio’u medrau darllen uwch yn gynhyrchiol i gywain gwybodaeth benodol o wahanol ffynonellau.

Mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu’n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn nifer o gyd-destunau amrywiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn creu darnau difyr yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da yn cynnwys llythyron personol i’r tri mochyn bach, gyda syniadau iddynt ar sut i gynllunio’u tai. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu’n ystyrlon yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn disgrifio tristwch Senghennydd yn feddylgar yn dilyn trychineb y pwll glo, ac yn ystyried yn rhesymol y gwahaniaethau yng nghyfeintiau dŵr wrth dyfu berwr. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion mwy abl a thalentog yn ysgrifennu’n estynedig yn ddigon da . Yn ogystal, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad y mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gyson daclus.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Maent yn cymhwyso’u gwybodaeth fathemategol, mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd, yn effeithiol. Enghraifft dda yw’r ffordd y mae’r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio ffracsiynau yn ddeallus i rannu pitsa yn gywir. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gref o sut i ddefnyddio data yn gynyddol gywir a’i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Maent yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graff llinell manwl ar ôl cymharu tymheredd a lleithder

gwahanol mathau o lo wrth iddynt losgi. Yn ogystal, maent yn cyfrifo elw a cholled yn effeithiol trwy werthu nwyddau yn ystod cyfnod cwpan rygbi'r byd, a throsi canrannau i raddau ar gyfer llunio onglau mewn siart cylch. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn cymhwyso'u medrau rhifedd ymestynnol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus. Maent yn defnyddio cyfarpar technolegol yn dda i greu ffilm i hysbysebu eu sioe Nadolig ac maent yn cyfeirio dyfeisiau electronig yn effeithiol ar grid. Mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh cadarn, gan gymhwyso'u medrau'n dda a dethol y dulliau mwyaf effeithiol i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio basau data yn fwriadus i gasglu gwybodaeth am guriadau'r galon ar ôl ymarfer eu cyrff. Maent yn cwestiynu a threfnu'r gwybodaeth yn dda i ddarganfod patrymau penodol yn y data. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth da o fanteision TGCh i gefnogi eu dysgu, a phwysigrwydd eu diogelwch ar-lein.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder dros eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn y naws gynhwysol a theuluol sydd yn bodoli ynddi. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, gan eu bod yn hyderus bod yr oedolion yn barod i wrando arnynt yn ystyriol. Mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd eu diogelwch ar-lein, ac yn amlinellu'r peryglon all godi yn sgîl defnydd anaddas o'r we. Mae'r dewiniaid digidol yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi hyn ym mhob dosbarth.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd cadw'n heini ac maent yn cyfrannu'n frwd i'w gwersi addysg gorfforol rheolaidd. Yn ogystal, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol tu allan i'w gwersi, er mwyn gwella eu medrau corfforol. Er enghraifft, maent yn rhedeg milltir ar dir yr ysgol tair gwaith yr wythnos i gynnal lefelau uchel o ffitrwydd. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys ac yfed dŵr yn gyson. Yn ogystal, maent yn datgan yn hyderus fod lles yn bwysig i fywyd cyflawn. Maent yn trafod yn aeddfed fod rhai o drigolion cefn gwlad Cymru yn wynebu anawsterau, sydd yn gallu niweidio'u bywydau.

Mae bron pob un disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith, gan ddangos gwydnwch a dyfalbarhad yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn gydwybodol ac maent yn cydweithio'n ddiwyd ar lawr y dosbarth. Maent yn barod iawn i drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion ac mae'r gallu i wrando ar gyfraniadau eraill yn nodwedd gref ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach trwy gyfrannu syniadau pwrpasol i'w themâu tymhorol. Maent yn deall yn dda fod eu llais yn bwysig i wella'u dysgu. O ganlyniad, maent yn ymdrechu'n frwd i lwyddo yn ystod eu gwersi ac wrth ymateb yn awyddus i dasgau heriol, fel trafod effaith firysau peryglus sy'n heintio'r holl fyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco, y pwyllgor iach a'r dewiniaid digidol yn weithgar ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn cymuned yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu rolau'n fawr, gan

eu bod wedi eu dewis trwy etholiad gan eu cyfoedion. Maent yn trafod eu rolau arwain yn hyderus ac maent yn cynnig rhesymau pwrpasol am wneud penderfyniadau cytûn ar ran eu cyfoedion. Er enghraifft, maent newydd lwyddo â chais am nawdd i gael diffibriliwr ar dir yr ysgol. Yn ogystal, mae'r cyngor ysgol yn ymateb i flaenoriaethau'r ysgol yn ddeallus trwy ddylanwadu ar gynnal mwy o wasanaethau dosbarth yn ystod yr wythnos.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol. Gwneir hyn trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sydd yn cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r mentrau sy'n bodoli i leihau hiliaeth ar derasau pêl-droed. Mae hyn yn hybu a datblygu eu gwerthoedd moesol yn effeithiol ac yn cyfrannu'n werthfawr at eu parodrwydd i drin pawb gyda pharch a chwrteisi.

Mae bron pob disgybl yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn datgan eu clod am y gweithgareddau creadigol sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd yn brydlon yn y boreau ac yn awyddus i drafod yr ethos cyfeillgar sy'n bodoli ar draws yr ysgol. Gwelir hyn yn ystod amser cinio wrth i'r disgyblion gyd-ganu caneuon Cymreig cyfoes tra'n bwyta'u bwyd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu cyfoethog i ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth bwriadus mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae perthynas waith fuddiol a chynhaliol yn bodoli rhwng yr athrawon, y cymorthyddion a'r disgyblion. Mae hyn yn annog parch, cwrteisi ac ymddiriedaeth rhyngddynt. Mae bron pob oedolyn yn modelu iaith raenus yn hyderus. Maent yn defnyddio amrywiol dechnegau holi yn bwrpasol i ymestyn ymatebion disgyblion yn synhwyrol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithredu'n dda i gefnogi'r dysgu yn effeithiol, trwy gynnig ymyraethau arbenigol a phwrpasol.

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n ennyn chwilfrydedd y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cyd-gynllunio ystod o brofiadau buddiol sydd yn adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd ysgogol i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant a hanes Cymru a'u hardal leol, fel ymweld â Chastell Powis i olrhain hanes Owain Glyndwr. O ganlyniad, maent yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin yn ddeallus a datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hetifeddiaeth a'u Cymreictod. Maent yn darparu cyfleoedd difyr yn gyson i ystyried dylanwad Cymru ar y byd ehangach, fel cyfraniadau mentrus tuag at ddathliadau 'Dydd Miwsig Cymru'. Cyfoethogwyd y diwrnod, a phrofiadau cymdeithasol y disgyblion, trwy wahodd ysgolion cyfagos i ymuno â'r achlysur i wrando ar gerddoriaeth gyfoes Gymreig.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol i gynllunio'r cwricwlwm, ac mae hyn yn nodwedd gadarn o waith yr ysgol. Cynigir cyfleoedd gwerthfawr iddynt fapio eu syniadau cyn cychwyn ar thema, sy'n arwain at weithgareddau diddorol. Mae hyn yn cynnal eu diddordeb a'u cymhelliant yn effeithiol. Yn ogystal, mae parodrwydd yr athrawon i ymateb i lais y disgybl yn

fyrfyfyr yn agwedd nodedig o'u gwaith, er enghraifft wrth astudio effaith trychineb Aberfan ar Gymru a'r byd ar gais y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys erthyglau papur newydd gan ddisgyblion, sy'n dwyn y pennawd, 'Pwy sy'n Gyfrifol?'

Mae gan athrawon ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn cynnig cydbwysedd effeithiol o weithgareddau sy'n cael eu gweithredu dan arweiniad staff, a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd wrth greu rhestr siopa a phrynu nwyddau yn siop y fferm. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn yr awyr agored mor effeithiol, sy'n llesteirio'r dysgu a'r addysgu ar adegau.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn fanwl a phwrpasol ac maent yn effeithio'n gadarn ar eu dysgu. Er enghraifft, mae athrawon yn gosod heriau i gymharu data mewn canolfannau hamdden i wella'u gwasanaethau, ac yn ysgogi'r disgyblion i ysgrifennu llythyron ffurfiol i lywodraethwyr yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes digon o her i'r disgyblion mwy abl a thalentog i ysgrifennu'n estynedig ac ymestyn eu hunain.

Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd diddorol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn darparu gweithgareddau synhwyrol i'r disgyblion recordio ac asesu eu gwaith ar lechi electronig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyfleoedd difyr i ddisgyblion ddefnyddio'r we i gywain gwybodaeth ddefnyddiol. Mae hyn yn cynnwys ymchwil am fywyd faciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd a heriau i greu basau data ar nifer y capiau sydd gan chwaraewyr rygbi rhyngwladol.

Mae asesiadau'r athrawon yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Mae'r athrawon yn cynnig adborth adeiladol i'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Maent yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau i gynllunio camau nesaf dysgu'r disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gweithredu yn erbyn eu targedau personol yn bwrpasol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau i sicrhau gofal a lles y disgyblion yn gadarn ac effeithiol. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol, lle rhoddir pwyslais cryf ar sicrhau gofal a chymorth pwrpasol i bob unigolyn. Mae agweddau cadarnhaol yr oedolion yn cyfrannu at agweddau brwdfrydig a chydwybodol ymysg yr holl ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion a'r oedolion yn ymfalchïo yn eu hysgol. Yn ogystal, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r gweithdrefnau tracio a'r systemau i olrhain cynnydd disgyblion yn ddefnyddiol a dibynadwy. Mae athrawon yn nodi'n gywrain y gwelliannau sy'n bodoli a chyflawniadau'r disgyblion yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn ogystal, maent yn cofnodi materion pwysig sy'n ymwneud â'u hymddygiad a'u presenoldeb. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn effeithiol i gynllunio'n fwriadus. O ganlyniad, maent yn darparu strategaethau amgen ar gyfer unrhyw ddisgybl neu grŵp o ddisgyblion sydd angen ymyraethau penodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn bwrpasol ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae ganddynt gynlluniau addysg unigol clir a mesuradwy. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau penodol ar gyfer y cynllunio i gynnig strategaethau llwyddiannus ar gyfer eu dysgu a sut i oresgyn anawsterau. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u cyraeddiadau blaenorol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol, fel yr heddlu, i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o sut i gadw'n ddiogel ar y we, a'r effaith niweidiol y gall camddefnyddio cyffuriau ei chael ar gymdeithas. Mae hyn yn magu agweddau cadarnhaol ymysg y disgyblion at eu lles.

Mae perthynas gynhyrchiol a dulliau cyfathrebu effeithiol yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol, sydd yn galluogi'r rhieni i gefnogi eu plant yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. Mae'r staff yn annog y disgyblion i gadw'n heini trwy wersi addysg gorfforol rheolaidd ac amrywiaeth dda o weithgareddau ar ôl ysgol, fel clwb chwaraeon. Yn ogystal, mae'r cyfle i redeg milltir, dridiau'r wythnos, yn llwyddo i gymell arfer dda ymysg y disgyblion i gadw'n iach a heini. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth ynglŷn â'u lles a'u hiechyd personol.

Mae cyfleoedd da i'r disgyblion  wneud penderfyniadau deallus, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco weithredu ar eu canfyddiadau mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol. Mae enghreifftiau da yn cynnwys cynnal mwy o ymweliadau addysgol o fewn y gymuned a phlannu coed o gwmpas tir yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gynnal gwasanaethau diolchgarwch mewn capel yn y dref, a darparu cyfleoedd i gyd-addoli a myfyrio yn yr ysgol yn rheolaidd. Yn ogystal, mae'r ysgol yn atgyfnerthu gwerthoedd cymunedol y disgyblion trwy hyrwyddo cân boblogaidd elusennol. Mae'r athrawon a'r disgyblion yn cyd-dynnu i gefnogi'r elusen, sy'n hybu iechyd meddwl cymunedau ar draws Cymru.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliannau gwledydd eraill. Er enghraifft, maent yn astudio diwylliant, bywyd a chelfyddyd Tsieina yn synhwyrol. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg yn effeithiol, wrth ymwneud â'r celfyddydau creadigol. Enghraifft dda o hyn yw'r gweithgaredd i gasglu porthiant yn yr amgylchedd lleol, a'i ddefnyddio i greu addurniadau naturiol. Mae'r holl brofiadau cymdeithasol, ysbrydol, moesol, diwylliannol a chreadigol hyn yn helpu i ddatblygu agweddau cadarn o ddinasyddiaeth gydwybodol ymysg y disgyblion.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Yn ystod ei daliadaeth fer, mae'r pennaeth dros dro ysbrydoledig wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae ei hathroniaeth yn seiliedig ar ysbrydoli'r holl staff i ganolbwyntio'n uniongyrchol ar ddatblygu disgyblion medrus a deallus. Caiff ei chefnogi'n effeithiol gan uwch dîm rheoli cadarn a llywodraethwyr cydwybodol. O ganlyniad, maent yn gweithredu arferion cyson sydd yn dosrannu cyfrifoldebau yn bwrpasol i'r staff, mewn awyrgylch hapus a sylwgar.

Mae'r arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn ddeallus. Maent newydd ailstrwythuro'r cynllunio i greu cwricwlwm difyr, ac mae'r themâu diddorol a chyfoes yn cyfoethogi'r dysgu yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn cymell disgyblion i ystyried hanes eu hardal yn deyngar, trwy astudio gofidion y dref am haint y traed a'r genau. Yn ogystal, mae'r arweinwyr yn canolbwyntio'n frwd ar ddefnydd rheolaidd y disgyblion o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r pwyslais hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion wrth iddynt gyfoethogi ac ymledu eu medrau ieithyddol yn fwriadus.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso manwl a chyfredol yn bodoli. Mae cyswllt cadarn rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau arfarnol a'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae'r arweinwyr yn ymateb i'r blaenoriaethau yn drylwyr ac yn targedu'r materion i'w gwella yn fwriadus. Mae amserlen gywrain yn bodoli ar gyfer arsylwi gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion, sy'n arwain yn effeithiol at adborth defnyddiol o fonitro pwrpasol. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau gwella ansawdd yn adeiladu darlun dilys, cywir a dibynadwy o'r ysgol.

Mae'r arweinwyr yn dosrannu cyfrifoldebau er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r cynllun gwella yn dda. Mae trafodaethau a chyfarfodydd y staff yn adeiladu rhwydwaith o gyfathrebu gwerthfawr, sy'n arwain at strategaethau buddiol i dargedu'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. O ganlyniad, mae ffocws clir ganddynt ar sut i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion a chreu gwelliannau adeiladol. Nodwedd gadarn o'r weithdrefn hon yw defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i gyhoeddi llwyddiannau'r disgyblion ar lawr y dosbarth i'r cyhoedd.

Mae gwybodaeth gref am berfformiad yr ysgol gan y llywodraethwyr. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn trafod bwriadau presennol a thymor hir yr ysgol yn hyfedr. Maent yn ddeallus wrth esbonio effaith yr hyfforddiant cyhwysfawr ar yr ysgol a phwrpas y gweithdrefnau rheoli perfformiad. Maent yn eu defnyddio'n fwriadus i gefnogi a gwella arbenigedd a medrau'r staff. Er enghraifft, mae'r ysgol newydd gynnal hyfforddiant i fireinio cymwyseddau ieithyddol y staff i hybu'r ymyraethau cynnar ymhellach. O ganlyniad, mae'r staff yn awyddus i rannu eu harbenigedd â'u cydweithwyr yn fwriadus, er mwyn iddynt sicrhau effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r staff a'r adeilad. Fodd bynnag, mae diffyg yn y ddarpariaeth awyr agored yn y cyfnod sylfaen. Nid yw'r adnoddau yn yr ardal allanol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus, i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae'r llywodraethwyr, ynghyd â'r pennaeth dros dro, yn monitro'r cyllid ac effeithiolrwydd yr adnoddau yn fanwl. Mae hyn yn cynnwys defnydd deallus o unrhyw warged i gynnal darpariaeth gynhwysol ar draws yr ysgol. Maent yn sicrhau bod grantiau ychwanegol yn cael eu gwario'n grefftus i gyfoethogi'r cwricwlwm er mwyn gwella deilliannau'r disgyblion. Enghraifft lwyddiannus yw'r defnydd effeithiol o grantiau ychwanegol i gynnal pedwar dosbarth yn yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn monitro hyn yn dymhorol ac yn canolbwyntio'n dda ar effaith y ddarpariaeth ar safonau'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn arwain yn gadarn ac yn gosod heriau synhwyrol i'r ysgol.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau'r disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. O ganlyniad, mae'r gwariant yn cysylltu'n bwrpasol â blaenoriaethau'r cynlluniau gwella.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2020